Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Gylch Meithrin Rhuddlan**
**Capel Ebeneser**
**Stryd y Senedd**
**Rhuddlan**
**LL18 5AW**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:


Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru



Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru



**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 26/05/2017**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Rhuddlan. Mae'n cwrdd mewn ystafell uwchben festri Capel Ebeneser yn nhref Rhuddlan, yn awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae'r lleoliad yn agor am bedwar bore'r wythnos, rhwng 9.00yb a 11.30yb, ac mae yno dri o ymarferwyr.

Mae cofrestriad y lleoliad yn caniatáu derbyn hyd at 16 o blant ar unrhyw adeg benodol, ac mae'n derbyn plant dwy a thair blwydd oed. Ar hyn o bryd, mae dau o blant yn derbyn addysg sydd wedi ei hariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae bron pob un o'r plant o darddiad gwyn Prydeinig ac mae ychydig iawn ohonynt yn siarad Cymraeg fel mamiaith. Ar hyn o bryd, nid oes un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Medi 2001. Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Mawrth 2015 a gan Estyn ym mis Tachwedd 2010.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau heriol, sy'n cymell plant i wella'u gwaith
- y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn effeithiol
- addysgu cadarn yr holl ymarferwyr yn diddori ac yn ysgogi'r plant
- cydweithio effeithiol a chyson yn treiddio trwy waith dyddiol y lleoliad
- gofal tyner yr ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu pwrpasol a deniadol
- ardaloedd dysgu ac adnoddau yn ennyn diddordeb ac ysgogaeth y plant yn yr adeilad ac yn yr awyr agored

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad i ysgogi gwelliannau i'r ddarpariaeth
- amcanion, cynlluniau a pholisïau'r lleoliad yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar ddarparu profiadau effeithiol i'r plant
- diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu a gwelliannau cyson yn treiddio trwy waith y lleoliad
- yr arweinydd yn gwneud defnydd effeithiol o asiantaethau allanol fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin
- ymarferwyr yn awyddus i elwa o hyfforddiant perthnasol
- y pwyllgor rheoli yn sicrhau cefnogaeth gyson
- ganddo bartneriaethau pwrpasol â rhieni, gofalwyr a'r ysgol leol

## Argymhellion

A1 Gwreiddio’r broses newydd o gynllunio yng ngwaith dyddiol y lleoliad

A2 Gwella cyflymder y cyflwyniadau yn y sesiynau torfol

A3 Defnyddio asesiadau’r ymarferwyr yn effeithiol i dargedu’r camau nesaf yn nysgu plant unigol

A4 Sicrhau bod y targedau yn y cynllun datblygu yn deillio’n uniongyrchol o’r broses hunanarfarnu

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Dd/b |
|---|---|

**Safonau:**

**Lles:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cydweithio'n gyson i ddarparu gweithgareddau cyffrous a diddorol i'r plant ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Maent yn darparu cwricwlwm a phrofiadau dysgu defnyddiol, sy'n adlewyrchu ethos y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn cymell y plant i ddysgu'n ymarferol ac i leisio'u syniadau personol i ddatblygu'r gweithgareddau ymhellach. Enghraifft effeithiol yw'r defnydd pwrpasol o'r ardal allanol wrth ymchwilio am drychfilod a chwarae rolau'n annibynnol yn y tŷ bach twt.

Mae'r holl ymarferwyr yn gwella'r profiadau i blant trwy drafodaethau rheolaidd. Maent yn trefnu'r gweithgareddau symbylus, sy'n cynnwys cyfleoedd i greu marciau a sgriblo siapiau ar fwrdd sialc yn yr ardd a chreu blodau o does, dail lliwgar a phren lolipop. Mae gweithgareddau o'r mathau hyn yn adeiladu'n bwrpasol ar frwdfrydedd y plant wrth iddynt ymroi'n llwyr i dasgau ffocws a dysgu trwy chwarae.

Mae'r lleoliad yn darparu'n gydwybodol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Mae tasgau llythrennedd a rhifedd yn amlwg ym mhob maes dysgu ac yn herio'r plant i berfformio ar eu gorau'n ddyddiol. Enghreifftiau ymarferol dda o hyn yw'r cyfleoedd i blant olrhain siapiau anifeiliaid y fferm ar bapur a ffurfio adeiladau dychmygol trwy uno siapiau gwahanol.

Mae ymarferwyr yn targedu diddordebau'r plant yn synhwyrol. Mae agweddau o'r broses gynllunio yn gymharol newydd ac, o ganlyniad, nid yw'r cynllunio'n targedu'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn gwbl effeithiol. Mae'r cyswllt â'r broses asesu, i dargedu a herio unigolion, yn aneglur ar adegau yng nghofnodion ymarferwyr.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus. Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd heriol i ddefnyddio ystod o offer fel camerâu, chwaraewr cryno ddisg, offer recordio, teganau a llechi electronig. Mae'r ymarferwyr yn cymell y plant yn gyson i ddefnyddio'r meddalwedd addysgol yn y Gymraeg i ddatblygu eu synnwyr o'r iaith a'u medrau TGCh cynnar. O ganlyniad, mae'r plant yn defnyddio'r cyfarpar yn hyderus ac ystyrlon.

Mae’r ymarferwyr yn canolbwyntio’n briodol ar ddatblygu medrau corfforol y plant. Maent yn cynnig cyfleoedd iddynt ddringo cyfarpar anturus, chwarae’n fywiog a phrysur yn yr ardal allanol a rhedeg dros rwystrau yn neuadd y capel. Mae’r gweithgareddau hyn yn datblygu medrau corfforol y plant yn bwrpasol.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu’r Gymraeg yn fuddiol iawn i’r plant. Mae’r ymarferwyr yn fodelau da o’r iaith. Maent yn cynorthwyo’r plant yn synhwyrol, gan fod y rhan fwyaf ohonynt yn dechrau dysgu’r iaith. Mae’r ymarferwyr yn annog plant i ddefnyddio’r iaith cymaint ag y bo modd trwy weithgareddau diddorol. Maent yn herio’r plant yn y Gymraeg yn gyson yn yr ardaloedd dysgu. Mae eu holi meddylgar yn ysgogi’r plant i ymateb yn gadarnhaol. Mae llawer o’r plant yn ymateb â geiriau ag ymadroddion cyfarwydd yn fuan ar ôl cychwyn yn y lleoliad. Maent yn rhifo, enwi lliwiau ac adnabod siapiau yn ddeallus a hyderus. O ganlyniad, mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o’r plant o’r iaith yn datblygu’n effeithiol.

Mae’r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru’n llwyddiannus. Mae’r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen, trafod castell y dref, coginio lobscows a phobi cacennau.

Mae’r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau i gyfoethogi profiadau dysgu’r plant. Mae’r profiadau’n cynnwys teithiau i'r castell, fferm, llyfrgell, y parc i gasglu dail yr hydref, a swyddfa arwerthwr tai. Mae ymwelwyr fel y nyrs a swyddogion o’r gwasanaethau brys yn addysgu plant yn bwrpasol am rolau pobl yn eu cymuned.

**Addysgu: Da**

Mae’r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant. Maent yn wybodus ynglŷn â gofynion y Cyfnod Sylfaen ac yn cydweithio’n effeithiol. Mae’r holl ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn gadarnhaol a diogel. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn llwyddiannus mewn gweithgareddau dyddiol.

Mae disgwyliadau cadarn gan yr ymarferwyr ar gyfer pob plentyn ac maent yn herio’r plant yn gyson yn ystod tasgau ffocws a pharhaus. Gan amlaf, mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod cymhelliant y plant yn uchel. Fodd bynnag, mae cyflwyniadau ymarferwyr yn y sesiynau torfol yn araf ar adegau, sy’n colli ffocws ychydig o blant iau.

Mae’r ymarferwyr yn synhwyro’n dda pryd i ymyrryd ym mhrofiadau a chwarae’r plant. Felly, mae’r effaith ar awydd y plant i wella’u gwaith yn gadarnhaol. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn ysgogi’r plant yn gyson i lwyddo. Gwelir hyn wrth i blant ddyfalbarhau gyda chwyddwydrau tra’n ymchwilio i drychfilod ac wrth iddynt ddefnyddio rhesi o gafnau i lifo dŵr.

Anogir y plant yn gyson i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol gan yr holl ymarferwyr. Maent yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd eang i ddysgu trwy chwarae. Enghraifft dda o hyn yw’r cyfleoedd i blant arbrofi’n annibynnol trwy drefnu peli yn ôl eu rhifau mewn silindr. Maent hefyd yn holi’r plant yn bwrpasol i ddatblygu

eu medrau meddwl a chyfathrebu. Gwneir hyn yn llwyddiannus wrth drafod siapiau sydd wedi eu peintio ar gerigos ar y bwrdd natur, penderfynu ar gyfaint bwcedi o dywod a choginio teisen gyda phartner yn y gegin fwd.

Mae’r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn ddefnyddiol. Mae’r dystiolaeth yn cyfatebu’n gywir â deilliannau plant unigol gan ddefnyddio proffil y Cyfnod Sylfaen, wrth iddynt ddatblygu yn y lleoliad. Mae’r holl ymarferwyr yn cofnodi’r asesiadau dyddiol, yn llyfrynnau cofnodi’r awdurdod lleol, yn gyson. Maent yn trafod yn synhwyrol gyda’r plant beth mae angen iddynt ei wneud i wella’u gwaith yn ystod tasgau. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio asesiadau dyddiol yn ddigon cyson i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol.

Mae’r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn effeithiol am gyflawniadau eu plant. Mae’r deialog dyddiol rhwng yr ymarferwyr a’r rhieni a gofalwyr yn cefnogi hyn. Ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad, mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gael i rieni ynglŷn â chynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r lleoliad yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Mae’r ymarferwyr yn defnyddio sesiynau torfol, fel amser byrbryd ac amser stori, i feithrin y gwerthoedd hyn. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn ystyried teimladau cyfoedion yn ddeallus, yn delio gyda’i gilydd yn deg ac yn parchu eraill.

Mae ymarferwyr yn creu amgylchedd myfyriol wrth ddarparu cyfleoedd cadarnhaol i blant feddwl, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo. Gwelir hyn wrth i blant ddistewi i wrando ar stori, dweud diolch am eu bwyd a rhannu cyfarpar tu mewn ac yn yr awyr agored. O ganlyniad, mae’r plant yn cymryd eu tro’n gwrtais wrth iddynt olchi dwylo, arllwys llaeth o jygiau a llinellu’n dawel i olchi a sychu eu llestri ar ddiwedd amser byrbryd. Mae’r system hon yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bob plentyn feithrin cyfrifoldeb yn ystod amser byrbryd.

Mae trefniadau effeithlon yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant ac mae’r lleoliad yn gweithredu systemau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae’r plant yn deall bod ffrwythau, llysiau ac ymarfer corff yn cyfrannu at ffordd synhwyrol o fyw. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cerdyn, nwyddau plastig a bwyd. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd yn llwyddiannus.

Mae’r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy’n dileu unrhyw fath o aflonyddwch neu gamau gormesol. Mae’r lleoliad yn amgylchedd diogel gyda’r drysau ar glo. Er bod angen teithio ar hyd yr heol i gyrraedd yr ardal allanol, mae’r ymarferwyr yn defnyddio llinyn yn ofalus i sicrhau bod y plant yn methu crwydro o’u gofal. Hefyd, mae’r ymarferwyr yn wyliadwrus pan fydd y plant yn cyrraedd a phan gânt eu casglu. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn briodol pan fyddant yn ymuno â’r lleoliad, ac yn ystod eu cyfnod yno. Mae ymarferwyr yn adolygu cynnydd plant yn

rheolaidd ac yn nodi eu mannau cychwyn yn gydwybodol trwy ddilyn canllawiau proffil y Cyfnod Sylfaen. Drwy hyn, mae’r lleoliad yn targedu plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol pan fydd angen. Mae ymarferwyr yn trafod y plant hyn gyda’r asiantaethau cefnogi pan mae’r angen yn codi i dargedu eu hanghenion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr adnabyddiaeth glir o anghenion y plant ac mae’r lleoliad yn gymuned gwbl gynhwysol. Caiff yr holl blant gyfle cyfartal i ddysgu yn yr ardaloedd gwahanol ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn herio a chefnogi plant yn ddyddiol mewn modd cadarnhaol a gofalus. Enghraifft gweithredol o hyn yw gwisgo’r plant mewn siacedi fflwroleuol a defnyddio llinyn rheoli i symud o’r ardal fewnol ar hyd yr heol i’r ardal allanol.

Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn rhoi pwyslais dyddiol ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Felly, mae’r lleoliad yn hyrwyddo ethos cadarnhaol drwy ei weithgareddau bob dydd ac agweddau brwdfrydig yr ymarferwyr. Maent yn addysgu’r plant am wahanol wyliau a diwylliannau’r byd yn effeithiol. O ganlyniad, maent yn dathlu’r Flwyddyn Newydd Dsieiniaid yn flynyddol, yn darllen storïau moesol am Affrica ac yn trafod doliau o wahanol ddiwylliannau yn llwyddiannus.

Mae’r lleoliad yn defnyddio adnoddau’n bwrpasol i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion plant. Caiff ystod eang yr adnoddau diddorol eu defnyddio’n effeithiol mewn gweithgareddau parhaus, tasgau ffocws ac i gyfoethogi’r dysgu. Mae’r adnoddau ar lefel ymarferol i bob un o’r plant, sy’n hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn bwrpasol. Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau TGCh i ddatblygu medrau’r plant yn llwyddiannus.

Mae’r adeilad o ansawdd addas, yn cael ei gynnal yn briodol ac mae’n ddiogel. Mae’r ymarferwyr yn rheoli’r plant yn gadarn a gofalus ar y grisiau sy’n arwain i’r llawr cyntaf. Mae’r tir a glustnodwyd gan y capel ar gyfer y lleoliad yn cynnwys ardaloedd tyfu a phlannu, cyfarpar i ddringo ac ardaloedd tawel i ddarllen a chwarae rôl. Mae’r lleoliad yn defnyddio’r tir hwn yn greadigol. Defnyddir neuadd y capel yn synhwyrol am weithgareddau bywiog fel rhedeg rasys rhwystrau, marchogaeth beiciau a chwifio rhubanau. Felly, mae pob ardal sydd ar gael iddynt yn cael eu defnyddio’n effeithiol. Mae’r ymarferwyr hefyd yn defnyddio cyfleusterau’r ardal leol yn synhwyrol, fel y dref, fferm gyfagos ac amwynderau cyhoeddus.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae amcanion, cynlluniau a pholisïau’r lleoliad yn canolbwyntio’n uniongyrchol ar ddarparu profiadau effeithiol i’r plant. Mae hyn yn bodloni anghenion y plant ac yn dathlu eu cyflawniadau’n llwyddiannus. Mae’r arweinydd yn brofiadol ac mae hi’n rheoli tîm o ymarferwyr sefydlog ac ymroddgar yn gadarn a theg. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel o ran yr ymarferwyr a’r plant. Llwydda i’w cymell tuag at welliannau mewn ffyrdd synhwyrol a chefnogol. Effaith hyn yw hyrwyddo a chynnal gwelliannau yn llwyddiannus.

Mae’r arweinydd yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad i ysgogi gwelliannau i’r ddarpariaeth. Mae ei gweledigaeth yn sicrhau bod yr addysgu a’r dysgu yn brif ffocws o ddydd i ddydd. Mae’r arweinydd a’i thîm yn canolbwyntio’n gydwybodol ar flaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu strategaethau llythrennedd a rhifedd a llwyddo gyda gofynion y proffil Cyfnod Sylfaen.

Mae’r arweinyddiaeth, sy’n cynnwys pwyllgor rheoli, yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn ddiddorol a phwrpasol. Mae’r pwyllgor rheoli’n sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau’n llawn ac yn gweithio’n ddyddiol fel tîm. Mae’r arferion goruchwylio a gwerthuso rheolaidd yn sefydlog. Mae’r system hon yn sicrhau bod y defnydd gorau’n cael ei wneud o arbenigedd ymarferwyr trwy werthusiadau blynyddol cadarn.

Mae’r pwyllgor rheoli’n derbyn gwybodaeth am arferion y lleoliad yn rheolaidd gan yr arweinydd. Maent yn cyfarfod i drefnu gweithgareddau a monitro’r cyllid yn gyson. Mae’r pwyllgor rheoli’n herio’r lleoliad yn briodol i gynnal arferion cyson a datblygu’r meysydd y mae angen eu gwella ymhellach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r arweinydd a’r pwyllgor rheoli, dan arweiniad yr awdurdod lleol, wedi sefydlu trefniadau cyson i fonitro ddeilliannau’r plant a’r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu a gwelliannau cyson yn treiddio trwy waith y lleoliad.

Trwy gydweithio effeithiol, mae'r wybodaeth a gasglwyd yn flynyddol trwy system meintiol yr awdurdod lleol, yn ogystal â gwerthusiadau’r pwyllgor rheoli, yn cyfrannu'n briodol at yr arfer hon. O ganlyniad, mae'r lleoliad wedi gwneud gwelliannau ystyrlon dros amser, fel mireinio’r broses o gynllunio yn ddiweddar a datblygu’r ardal allanol.

Mae prosesau hunanarfarnu ffurfiol y lleoliad yn datblygu'n addas. Er enghraifft, maent yn ystyried barn ymarferwyr, rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn llwyddiannus. Felly, mae cynllun datblygu'r lleoliad yn nodi meysydd addas ar gyfer gwella.

Mae'r arweinydd a’r pwyllgor rheoli yn blaenoriaethu gwariant yn synhwyrol, yn unol â'r camau gweithredu a nodwyd ar gyfer gwella. Maent yn cytuno targedau gydag ymarferwyr a gweithredu'r newidiadau ar y cyd. Fodd bynnag, nid yw'r targedau yn y cynllun datblygu bob amser yn deillio'n uniongyrchol o broses hunanarfarnu'r lleoliad. Er bod prosesau yn eu lle, nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn cynnwys digon o fanylder ynglŷn â pham mae angen gwella rhai meysydd ymhellach.

Mae'r holl ymarferwyr yn awyddus i dderbyn syniadau newydd a awgrymwyd gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol ac athrawes gyswllt yr ysgol gyfagos. Maent yn gweithredu’n rheolaidd ar eu cyngor. Mae hyn yn arwain at welliannau buddiol, fel defnyddio'r proffil Cyfnod Sylfaen i wella arferion asesu a nodi mannau cychwyn perthnasol ar gyfer y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r lleoliad yn gweithio’n llwyddiannus gyda phartneriaid i wella’r ddarpariaeth a deilliannau’r plant. O ganlyniad, mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau strategol effeithiol.

Mae’r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae ymarferwyr yn eu hysbysu’n rheolaidd am bob agwedd o waith y lleoliad. Cânt eu hannog i gynnig eu barn ar faterion i wella’r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau rheolaidd. Mae’r cysylltiadau cymunedol hyn yn hybu dysgu’r plant yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae cefnogaeth fuddiol i’r lleoliad wrth gynnig am gyfarpar a grantiau perthnasol.

Gan fod y lleoliad yn derbyn cymorth gan athrawes o’r ysgol leol am un bore pob pythefnos, mae cyswllt cadarnhaol â’r ysgol. Mae hyn yn cefnogi trefniadau pontio’r plant yn bwrpasol. Mae trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth bersonol ac asesiadau yn effeithiol ac yn fuddiol i’r plant wrth iddynt ymgynefino â’r ysgol.

Mae’r lleoliad yn gweithio’n llwyddiannus gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae hyn yn atgyfnerthu’r partneriaethau cadarnhaol sy’n bodoli. Mae’r sefydliadau hyn yn cefnogi trwy ddarparu dogfennaeth a hyfforddiant yn effeithiol. Mae ymarferwyr hefyd yn gweithio a chysylltu ag ystod eang o bartneriaid eraill. Mae’r rhain yn cynnwys asiantaethau sy’n darparu hyfforddiant mewn cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, asesiadau risg, yr iaith Gymraeg, datblygiadau’r Cyfnod Sylfaen ac amddiffyn plant. Mae’r cysylltiadau defnyddiol hyn yn gwneud cyfraniadau pwysig at wella’r ddarpariaeth.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r arweinydd a’r pwyllgor rheoli yn anelu’n gyson at wella pob agwedd o waith y lleoliad. Gwneir hyn trwy ddefnyddio ymarferwyr yn ddeallus a dyrannu adnoddau’n effeithiol. Maent yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys trwy ddarparu hyfforddiant cyflawn.

Mae arferion arwain pwrpasol yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus. O ganlyniad, sefydlwyd cymuned ddysgu gadarnhaol, sydd â diwylliant o gydweithio effeithiol rhwng ymarferwyr a phartneriaid y lleoliad.

Mae’r systemau rheoli perfformiad yn effeithlon ac yn sicrhau profiadau dysgu diddorol ac arferion addysgu cadarnhaol. Mae’r lleoliad yn rheoli adnoddau yn greadigol i gefnogi dysgu. Mae hyn yn cynnwys y defnydd o neuadd y capel am weithgareddau corfforol a’r ardal allanol i ymholi, ymchwilio a chwarae’n fywiog.

Mae gan yr arweinydd a’r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb a’r heriau sydd ynghlwm â hi ers sawl blwyddyn. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn ofalus gan nodi cyfrifoldebau a llinynnau amser synhwyrol. Mae gofalwyr a rhieni hefyd yn cyfrannu’n gyson i gyllido’r lleoliad, trwy ddigwyddiadau cymunedol i godi arian. Maent yn creu gwelliannau cyson trwy drafod ac ariannu cynlluniau i wella’n

bwrpasol.  Mae'r lleoliad yn sicrhau bod y defnydd a wneir o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth a deilliannau plant.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian oherwydd y ddarpariaeth effeithiol a'r arweinyddiaeth bwrpasol.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o’r adroddiad**

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |